
# Amcanestyniadau aelwydydd parciau cenedlaethol Cymru, yn seiliedig ar 2018

**5 Mai 2021**
**SFR 132/2021**

**Siart 1: Newid canrannol yn amcanestyniadau nifer yr aelwydydd a phoblogaeth aelwydydd yn ôl parc cenedlaethol, 2018 i 2028**




Ffynhonnell: Amcanestyniadau aelwydydd parciau cenedlaethol, yn seiliedig ar 2018, Llywodraeth Cymru

Rhwng 2018 a 2028:

- amcanestynnir y bydd niferoedd yr aelwydydd yn y tri pharc cenedlaethol wedi cynyddu erbyn 2028
- amcanestynnir cynnydd o 4.8% (bron 730) yn nifer yr aelwydydd ym Mannau Brycheiniog, 5.3% (550 (r)) yn Arfordir Penfro ac o 0.3% (40) yn Eryri
- amcanestynnir cynnydd hefyd ym mhoblogaeth aelwydydd Bannau Brycheiniog o 3.3% (ychydig dros 1,100) a chynnydd o 2.3% (500) yn Arfordir Penfro
- yn Eryri, amcanestynnir gostyngiad ym mhoblogaeth aelwydydd o -1.9% (480 (r))
- amcanestynnir mai aelwydydd un person ac aelwydydd dau berson heb blant fydd y math mwyaf cyffredin o aelwyd o hyd yn y tri pharc cenedlaethol

(r) Wedi ei ddiwygio ar 19 Mai 2021 oherwydd gwallau talgrynnu

## Am y datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno canlyniadau amcanestyniadau aelwydydd parciau cenedlaethol Cymru sy'n seiliedig ar 2018, ar gyfer y cyfnod 25 mlynedd o 2018-2043.

Maent wedi eu cyfrifo yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth sy'n seiliedig ar 2018 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 5 Mai 2021.

Mae amcanestyniadau aelwydydd yn rhoi syniad o nifer posibl yr aelwydydd a'u cyfansoddiad yn y dyfodol yng Nghymru.

Maent yn seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch aelwydydd o Gyfrifiadau 2001 a 2011.

## Yn y datganiad hwn

Prif amcanestyniadau 5
Cymariaethau 14
Nodiadau 17

Ystadegydd: Martin Parry ~ 0300 025 0373 ~ ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru

Ymholiadau oddi wrth y wasg: 0300 025 8099 Ymholiadau cyhoeddus: 0300 025 505 Twitter:@YstadegauCymru

## Am yr amcanestyniadau hyn

Mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi amcanestyniadau aelwydydd isgenedlaethol ar gyfer Cymru. Maent yn cynnwys amcanestyniadau ar gyfer awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol. Cyhoeddwyd amcanestyniadau o aelwydydd awdurdodau lleol Cymru, yn seiliedig ar 2018 ar 4 Awst 2020. Mae'r amcanestyniadau ar gyfer aelwydydd parciau cenedlaethol yn seiliedig ar amcanestyniadau Llywodraeth Cymru o boblogaethau parciau cenedlaethol. Mae amcanestyniadau Llywodraeth Cymru o boblogaethau ac aelwydydd is-genedlaethol yn seiliedig ar amcanestyniadau cenedlaethol o boblogaeth y Deyrnas Unedig a'i gwledydd cyfansoddol. Mae'r amcanestyniadau hyn yn darparu amcangyfrifon o nifer yr aelwydydd a'u cyfansoddiad ym mharciau cenedlaethol yng Nghymru yn y dyfodol, ac maent yn seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch poblogaeth a chyfraddau ffurfio aelwydydd yr ystyrir eu bod yn adlewyrchu'r patrymau demograffig orau ar y pryd.

Dyma'r diffiniad o aelwyd:

- un person yn byw ar ei ben ei hun, neu
- grŵp o bobl (heb fod yn perthyn i'w gilydd, o reidrwydd) sy'n byw yn yr un cyfeiriad, sy'n rhannu cyfleusterau coginio, ac ystafell fyw neu lolfa neu fan bwyta

Mae hyn yn cynnwys:

- unedau llety cysgodol mewn sefydliad lle mae gan 50% neu ragor eu cegin eu hunain (p'un a oes cyfleusterau cymunol eraill ai peidio)
- pob person sy'n byw mewn carafán ar unrhyw fath o safle sy'n breswylfa arferol iddynt. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw un sydd heb breswylfa arall mewn man arall yn y DU.

Poblogaeth aelwydydd yw nifer y bobl sy'n byw mewn aelwydydd preifat. Cyfrifir hyn trwy dynnu'r boblogaeth sy'n byw mewn sefydliadau cymunedol o gyfanswm y boblogaeth. Mae sefydliadau cymunedol yn cynnwys cartrefi gofal preswyl, neuaddau preswyl prifysgolion, ysgolion preswyl a charchardai.

Mae'r amcanestyniadau ar gael ar gyfer y cyfnod o 25 mlynedd, rhwng 2018 a 2043. Fodd bynnag, mae'r datganiad hwn yn canolbwyntio ar 10 mlynedd cyntaf cyfnod yr amcanestyniad, gan fod amcanestyniadau'n tueddu i ddod yn fwyfwy ansicr yn y tymor hwy, gan y gall tueddiadau newid dros yr amser hwnnw. Nid ydym yn cynhyrchu unrhyw amrywiadau i'r amcanestyniadau hyn a'r hyn a gyflwynir yn y datganiad hwn yw'r 'prif' amcanestyniad.

Mae'n bwysig nodi nad rhagolygon yw'r amcanestyniadau hyn, ac nad ydynt yn ceisio rhagweld yr effaith y gallai polisïau'r llywodraeth yn y dyfodol, amgylchiadau economaidd newidiol, neu ffactorau eraill, megis pandemig y coronafeirws (COVID-19), na nifer y tai a adeiladir, ei chael ar nifer yr aelwydydd. Nid ydynt yn rhoi gwybodaeth ynghylch faint o dai y dylid eu hadeiladu. Mae'n dangos faint o aelwydydd fyddai'n ymffurfio pe bai poblogaeth y parciau cenedlaethol a'u cyffiniau'n parhau i newid fel y gwnaeth rhwng 2014 a 2018 ac yn parhau i ffurfio aelwydydd fel y

gwnaeth rhwng 2001 a 2011. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi amcangyfrifon o’r angen a’r galw am dai ar wahân, ar gyfer pedwar rhanbarth yng Nghymru, sy'n ystyried yr angen sy'n codi o'r newydd (yn seiliedig ar amcanestyniadau o aelwydydd) yn ogystal â'r angen sy’n bod sydd heb ei ddiwallu. Mae'r adran gwybodaeth allweddol am ansawdd yn rhoi mwy o wybodaeth am y fethodoleg a ddefnyddiwyd.

Mae'r amcanestyniadau ar gyfer parciau cenedlaethol yn cynnwys amcanestyniadau ar gyfer ardaloedd y parciau cenedlaethol, ac amcanestyniadau ar gyfer y rhannau o'r awdurdodau lleol sydd y tu allan i ffiniau'r parciau cenedlaethol. Gelwir y rhain yn ardaloedd 'gweddilliol'. Er bod y datganiad hwn yn canolbwyntio ar amcanestyniadau’r parciau cenedlaethol, mae'r amcanestyniadau ar gyfer yr ardaloedd gweddilliol hefyd wedi'u cynnwys ar gyfer cyflawnrwydd. Ceir rhagor o wybodaeth am amcanestyniadau’r ardaloedd gweddilliol yn yr adran gwybodaeth allweddol am ansawdd.

Mae'n bosibl cymharu'r amcanestyniadau hyn ag amcanestyniadau o aelwydydd awdurdodau lleol yn seiliedig ar 2018. Fodd bynnag, nid yw'r amcanestyniadau ar gyfer y parciau cenedlaethol a'r ardaloedd y tu allan i ffiniau'r parciau cenedlaethol (ardaloedd 'gweddilliol') yn cael eu cyfyngu i’r amcanestyniadau o aelwydydd yr awdurdodau lleol. Mae hyn yn golygu nad yw swm amcanestyniadau'r parciau cenedlaethol o reidrwydd yn cyfateb i amcanestyniadau aelwydydd awdurdodau lleol. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr adran Cymariaethau.


## Parciau cenedlaethol yng Nghymru

Pasiwyd Deddf Seneddol yn 1949 i sefydlu parciau cenedlaethol gyda'r nod o gadw eu harddwch naturiol, diogelu bywyd gwyllt, a darparu cyfleoedd hamdden i'r cyhoedd.

Mae tri pharc cenedlaethol yng Nghymru, fel y dangosir ym Map 1. Y rhain yw:

1. Parc cenedlaethol Eryri
2. Parc cenedlaethol Arfordir Penfro
3. Parc cenedlaethol Bannau Brycheiniog

**Map 1: Parciau cenedlaethol yng Nghymru**





Yng Nghymru, mae gan bob parc cenedlaethol ei awdurdod parc cenedlaethol ei hun, sef yr awdurdod cynllunio statudol ar gyfer ardal y parc hefyd.

Mae'r tri pharc cenedlaethol yn cwmpasu 19.5% o arwynebedd tir Cymru ond o ganol 2018 â 2.6% o’r boblogaeth a 2.8% o'r aelwydydd. [1]

[1] Er bod data canol 2019 ar gael, defnyddir data canol 2018 yn y fan hon gan mai honno yw blwyddyn sylfaen yr amcanestyniadau hyn.

## Amcanestyniadau o aelwydydd parciau cenedaethol, ar sail 2018

### Siart 2: Amcanestyniadau o aelwydydd yn ôl parc cenedlaethol, 2018 a 2028




Ffynhonnell: Amcanestyniadau o aelwydydd parciau cenedlaethol, yn seiliedig ar 2018, Llywodraeth Cymru

Mae'r tueddiadau sy'n cael eu hamcanestyn yn niferoedd yr aelwydydd yn debyg yn fras i amcanestyniadau poblogaeth parciau cenedlaethol, sy'n seiliedig ar 2018. Ond, er yr amcanestynnir y bydd poblogaeth Eryri yn gostwng rhwng 2018 a 2028, amcanestynnir y bydd nifer yr aelwydydd yn cynyddu ychydig. Poblogaeth sy'n heneiddio sy'n rhannol gyfrifol fwy na thebyg am y gwahaniaeth hwn a bod mwy o aelwydydd un person yn cael eu ffurfio.

### Amcanestyniadau yn ôl math o aelwyd

Er yr amcanestynnir y bydd cyfansymiau yr aelwydydd yn y tri pharc cenedlaethol yn cynyddu yn ystod y cyfnod 2018 i 2028, nid yw hyn yn wir am bob math o aelwyd.

### Parc cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Parc cenedlaethol Bannau Brycheiniog yw'r mwyaf poblog yng Nghymru ac amcangyfrifir bod ganddo boblogaeth yng nghanol 2018 o dros 33,800 o bobl. Mae ganddo arwynebedd o 1,345km$^2$ sy'n rhoi dwysedd poblogaeth o 25 o bobl fesul cilomedr sgwâr.

Mae'r parc cenedlaethol o fewn nifer o awdurdodau lleol, gyda chyfrannau amrywiol o aelwydydd ym mhob un o'r awdurdodau lleol. Yr awdurdodau lleol yn ardal parc cenedlaethol Bannau Brycheiniog yw:


- Powys
- Sir Gaerfyrddin
- Castell-nedd Port Talbot
- Rhondda Cynon Taf
- Merthyr Tudful
- Caerffili
- Blaenau Gwent

• Tor-faen

• Sir Fynwy

Ganol 2018, Powys a Sir Fynwy oedd i gyfrif am y rhan fwyaf o aelwydydd y parc cenedlaethol, gyda Phowys yn cyfrif am 72% a Sir Fynwy 22%. Roedd Sir Gaerfyrddin, Rhondda Cynon Taf (r) a Merthyr Tudful (r) yn cyfrif am gyfran lai o aelwydydd y parc cenedlaethol (4%, 2% ac 1% yn y drefn honno). Mae rhan fach iawn o Gastell-nedd Port Talbot, Caerffili, Blaenau Gwent a Thor-faen y tu mewn i ardal parc cenedlaethol Bannau Brycheiniog felly at ddibenion yr amcanestyniadau hyn, nid ydym yn cyfrifo amcanestyniadau ar gyfer yr ardaloedd gweddilliol hyn.

**Siart 3: Amcanestyniadau o aelwydydd Bannau Brycheiniog yn ôl math o aelwyd, 2018 a 2028**




Ffynhonnell: Amcanestyniadau aelwydydd parciau cenedlaethol, yn seiliedig ar 2018, Llywodraeth Cymru

Rhwng 2018 a 2028:

- amcanestynnir y bydd nifer yr aelwydydd un person a'r aelwydydd dau berson heb blant yn cynyddu ac yn parhau i fod y math mwyaf cyffredin o aelwyd, gan gyfrif am 34.9% a 33.6%, yn y drefn honno, o'r holl aelwydydd yn 2028
- amcanestynnir y ceir cynnydd o 16.6% yn nifer yr aelwydydd ag un person â phlant, wedi'i arwain yn bennaf gan gynnydd yn nifer yr aelwydydd ag un plentyn (noder, fodd bynnag, ceir llai o'r aelwydydd hyn na mathau eraill o aelwydydd, gan gyfrif am 5.8% o'r holl aelwydydd yn 2028)


(r) Wedi ei ddiwygio ar 19 Mai 2021 oherwydd cafodd yr awdurdodau lleol eu rhestru yn y drefn anghywir

- amcanestynnir y ceir gostyngiad yn nifer yr aelwydydd â dau oedolyn a phlant, gan gyfrif am 16.5% o'r holl aelwydydd erbyn 2028. Mae hyn yn golygu yr amcanestynnir y bydd nifer yr aelwydydd â phlant yn gyffredinol yn gostwng, gan gyfrif am 22.3% o'r holl aelwydydd erbyn 2028.
- amcanestynnir y ceir cynnydd bychan yn nifer yr aelwydydd mawr heb blant, er yr amcanestynnir y bydd eu cyfran o'r holl aelwydydd yn cwympo ychydig i 9.2%.

### Parc cenedlaethol Arfordir Penfro

Parc cenedlaethol Arfordir Penfro yw'r unig barc cenedlaethol y mae'r cyfan ohono mewn un awdurdod lleol (Sir Benfro) ac amcangyfrifir bod ganddo'r boblogaeth leiaf, o ychydig o dan 22,400 o bobl yng nghanol 2018. Mae ganddo arwynebedd o 586km$^2$ sy'n rhoi dwysedd poblogaeth o 38 o bobl fesul cilomedr sgwâr. Yng nghanol 2018, amcangyfrifwyd bod 19% o aelwydydd awdurdod lleol Sir Benfro yn ardal y parc cenedlaethol.

**Siart 4: Amcanestyniadau o aelwydydd Arfordir Penfro yn ôl math o aelwyd, 2018 a 2028**




Ffynhonnell: Amcanestyniadau aelwydydd parciau cenedlaethol, yn seiliedig ar 2018, Llywodraeth Cymru


Rhwng 2018 a 2028:

- amcanestynnir y bydd nifer yr aelwydydd un person a'r aelwydydd dau berson heb blant yn cynyddu ac yn parhau i fod y math mwyaf cyffredin o aelwyd, gan gyfrif am 36.7% a 38.6%, yn y drefn honno, o'r holl aelwydydd yn 2028
- amcanestynnir y ceir gostyngiad yn nifer yr aelwydydd â phlant o ychydig dros 2,000 o aelwydydd i prin 1,900 o aelwydydd (gostyngiad o 6%), er gwaethaf cynnydd bach yn nifer yr aelwydydd o un person â phlant
- amcanestynnir y bydd nifer yr aelwydydd mawr heb blant yn aros yn fras yr un peth, er yr amcanestynnir y bydd eu cyfran o'r holl aelwydydd yn gostwng i 7.6%.

## Parc cenedlaethol Eryri

Parc cenedlaethol Eryri yw'r mwyaf yng Nghymru, gydag arwynebedd o 2,110km$^2$, ac amcangyfrifir bod ganddo boblogaeth o ychydig o dan 25,400 yng nghanol 2018, gan roi dwysedd poblogaeth o 12 o bobl fesul cilomedr sgwâr iddo. Roedd y rhan fwyaf o'r aelwydydd (85%) yng nghanol 2018 yn ardal sir Gwynedd a'r 15% sy'n weddill yng Nghonwy.

**Siart 5: Amcanestyniadau o aelwydydd Eryri yn ôl math o aelwyd, 2018 a 2028**




Ffynhonnell: Amcanestyniadau aelwydydd parciau cenedlaethol, yn seiliedig ar 2018, Llywodraeth Cymru

Rhwng 2018 a 2028:

- amcanestynnir y bydd nifer yr aelwydydd un person yn cynyddu ac yn parhau i fod y math mwyaf cyffredin o aelwyd, gan gyfrif am 41.7% o'r holl aelwydydd yn 2028
- amcanestynnir y bydd nifer yr holl fathau eraill bras o aelwydydd yn gostwng dros y cyfnod, gyda mathau o aelwydydd mwy yn gweld y gostyngiad canrannol mwyaf
- amcanestynnir y bydd nifer yr aelwydydd â phlant yn gostwng o bron 2,450 o aelwydydd i ychydig o dan 2,160 o aelwydydd (gostyngiad o 4.2%), gan gyfrif am 17.8% o'r holl aelwydydd erbyn 2028


**Aelwydydd un-person**

Rhwng 2018 a 2028:

- amcanestynnir y bydd nifer yr aelwydydd un-person yn cynyddu ledled Cymru, a byddant yn parhau i fod y math mwyaf cyffredin o aelwyd, gan gyfrif am 33.5% o'r holl aelwydydd yn 2028 (ar sail amcanestyniadau o aelwydydd awdurdodau lleol yn seiliedig ar 2018)
- mae hyn yn debyg i'r amcanestyniad ar gyfer y tri pharc cenedlaethol, gydag aelwydydd un person yn dod yn fwy cyffredin ac yn cyfrif am 35%, 37% a 42% o'r holl aelwydydd erbyn 2028 ym Mannau Brycheiniog, Arfordir Penfro ac Eryri yn y drefn honno.


Mae Siartiau 6 a 7 yn dangos sut yr amcanestynnir y bydd nifer yr aelwydydd un-person yn ôl oed a rhyw yn newid yn y tri pharc cenedlaethol gyda'u gilydd rhwng 2018 a 2028. Mae'r duedd o ran oed a rhyw yn debyg yn fras yn y tri pharc cenedlaethol, er bod rhai gwahaniaethau.

**Siart 6: Nifer yr aelwydydd un person sy'n fenywod yn ôl grŵp oed ym Mannau Brycheiniog, Arfordir Penfro ac Eryri, 2018 a 2028**




Ffynhonnell: Amcanestyniadau aelwydydd parciau cenedlaethol, yn seiliedig ar 2018, Llywodraeth Cymru

**Siart 7: Nifer yr aelwydydd un person sy'n ddynion yn ôl grŵp oed ym Mannau Brycheiniog, Arfordir Penfro ac Eryri, 2018 a 2028**




Ffynhonnell: Amcanestyniadau aelwydydd parciau cenedlaethol, yn seiliedig ar 2018, Llywodraeth Cymru

Rhwng 2018 a 2028, yn y tri pharc cenedlaethol:

- amcanestynnir y bydd byw ar aelwyd un person yn parhau i fod yn fwy cyffredin ymhlith menywod mewn grwpiau oed hŷn nag ymhlith dynion
- amcanestynnir y bydd byw ar aelwyd un person yn parhau i fod yn fwy cyffredin ymhlith dynion mewn grwpiau oed iau nag ymhlith menywod
- amcanestynnir y bydd cyfanswm y dynion sy'n byw ar aelwydydd un person yn cynyddu 15% o'i gymharu â 3% ymhlith menywod, er yr amcanestynnir y bydd cyfanswm y menywod sy'n byw ar aelwydydd un person yn parhau'n uwch, gyda 7,380 o fenywod o'u cymharu â 7,250 o ddynion yn 2028
- er yr amcanestynnir y bydd nifer yr aelwydydd un person yn cynyddu, amcanestynnir y bydd nifer yr aelwydydd un person ar gyfer yr oedrannau iau yn gostwng yn gyffredinol ar gyfer dynion a menywod.


## Poblogaeth aelwydydd a maint yr aelwydydd

Poblogaeth aelwydydd ydy nifer y bobl sy'n byw mewn aelwydydd preifat. Cyfrifir hyn trwy dynnu'r boblogaeth sy'n byw mewn sefydliadau cymunedol o'r boblogaeth. Mae sefydliadau cymunedol yn cynnwys cartrefi gofal preswyl, neuaddau preswyl prifysgolion, ysgolion preswyl a charchardai. Gan nad yw'r amcangyfrifon o'r boblogaeth sy'n byw mewn sefydliadau cymunedol ar gael yn flynyddol, cyfrifir y niferoedd tybiedig ar sail data'r cyfrifiad.

Fel y dangosir yn Siart 1, disgwylir i boblogaethau aelwydydd ym Mannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro dyfu 3.3% (i ychydig dros 34,100) a 2.3% (i bron 22,400) yn y drefn honno, tra disgwylir y

byddant yn gostwng yn Eryri 1.9% (i bron 24,500). Mae hyn yn cymharu ag amcanestyniad o gynnydd o 2.4% ym mhoblogaeth aelwydydd Cymru gyfan.

**Siart 8: Amcanestyniadau o boblogaeth aelwydydd yn ôl parc cenedlaethol, 2018 a 2028**




Ffynhonnell: Amcanestyniadau aelwydydd parciau cenedlaethol, yn seiliedig ar 2018, Llywodraeth Cymru

Mae maint cyfartalog aelwydydd, sydd yn cael ei fesur fel personau i bob aelwyd, yn cael ei gyfrifo trwy rannu poblogaeth yr aelwydydd â chyfanswm nifer yr aelwydydd. Amcanestynnir y bydd maint cyfartalog aelwydydd yng Nghymru yn gostwng o 2.27 person ym mhob aelwyd yn 2018 i 2.23 person ym mhob aelwyd yn 2028.

**Tabl 1: Amcanesyniadau o faint cyfartalog aelwydydd yn ôl parc cenedlaethol, 2018-2028**

| Maint cyfartalog aelwydydd | | |
|---|---|---|
| | 2018 | 2028 |
| Bannau Brycheiniog | 2.18 | 2.15 |
| Arfordir Penfro | 2.09 | 2.03 |
| Eryri | 2.06 | 2.01 |


Ffynhonnell: Amcanestyniadau aelwydydd parciau cenedlaethol, yn seiliedig ar 2018, Llywodraeth Cymru

Mae maint cyfartalog aelwydydd yn y tri pharc cenedlaethol yn is na'u maint yng Nghymru gyfan. Y rheswm pennaf am hyn yw bod poblogaethau'r parciau cenedlaethol ar y cyfan yn hŷn. Mae poblogaethau hŷn yn fwy tebygol o fyw ar aelwydydd un a dau berson, sy'n lleihau maint cyfartalog aelwydydd. Y rheswm pennaf am y gostyngiad a amcanestynnir ym maint cyfartalog aelwydydd ar draws y tri pharc cenedlaethol yw bod poblogaeth y tri pharc cenedlaethol yn heneiddio a disgwylir y bydd cyfraddau ffurfio aelwydydd yn parhau'n weddol debyg.

### Ardaloedd gweddilliol

Mae sawl awdurdod lleol yn rhannol y tu mewn i barc cenedlaethol ac yn rhannol y tu allan. Gelwir yr ardal sydd y tu allan i'r parc cenedlaethol yn 'ardal weddilliol'. Gweler yr adran gwybodaeth allweddol am ansawdd i gael rhagor o wybodaeth am sut y cyfrifir amcanestyniadau ar gyfer ardaloedd gweddilliol.

**Bannau Brycheiniog**




**Arfordir Penfro**




**Eryri**





### Ardaloedd gweddilliol parc cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Mae pum awdurdod lleol sy'n rhannol o fewn parc cenedlaethol Bannau Brycheiniog (gyda phedwar awdurdod lleol arall sydd â rhannau bach iawn o fewn ardal y parc cenedlaethol, nad ydynt wedi'u cynnwys yma).

Powys a Sir Fynwy sydd â'r gyfran fwyaf o'u poblogaethau yn y parc cenedlaethol (18% ac 8% yn y drefn honno). Mae llai nag 1% o boblogaethau Sir Gaerfyrddin, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf o fewn y parc cenedlaethol, o ganol 2018.

**Siart 9: Canran y newid yn nifer yr aelwydydd a phoblogaeth aelwydydd yn ôl ardaloedd gweddilliol rhwng 2018 a 2028**




Ffynhonnell: Amcanestyniadau aelwydydd parciau cenedlaethol, yn seiliedig ar 2018, Llywodraeth Cymru

Rhwng 2018 a 2028, amcanestynnir y bydd nifer yr aelwydydd yn y pum ardal weddilliol y tu allan i barc cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cynyddu. Amcanestynnir mai yn ardal weddilliol Rhondda Cynon Taf y gwelir y cynnydd mwyaf yn nifer yr aelwydydd, sef 5.6% (5,900).

Amcanestynnir y bydd poblogaeth aelwydydd yn cynyddu ym mhedair o'r pum ardal weddilliol. Amcanestynnir y bydd gostyngiad bach ym mhoblogaeth yr aelwydydd yn ardal weddilliol Powys, er y disgwylir cynnydd yn nifer yr aelwydydd o hyd.

Fel ardaloedd y parciau cenedlaethol, amcanestynnir y bydd nifer yr aelwydydd un a dau berson yn y pum ardal weddilliol yn cynyddu yn gyffredinol. Yn gyffredinol, amcanestynnir y bydd nifer y mathau mwy o aelwydydd yn gostwng neu'n cynyddu'n arafach nag aelwydydd un a dau berson.

### Ardal weddilliol parc cenedlaethol Arfordir Penfro

Mae Arfordir Penfro yn gyfan o fewn awdurdod lleol Sir Benfro, gyda rhyw 19% o holl aelwydydd yr awdurdod lleol ynddo yng nghanol 2018.

Rhwng 2018 a 2028, amcanestynnir y gwelir cynnydd o 5.1% (rhyw 2,300) yn nifer yr aelwydydd yn ardal weddilliol Sir Benfro a chynnydd o 2.1% (2,100) ym mhoblogaeth yr aelwydydd. Amcanestynnir y gwelir cynnydd o 9.0% (2,800) yn nifer yr aelwydydd un person a dau berson yn ardal weddilliol Sir Benfro a gostyngiad yn nifer y rhan fwyaf o fathau eraill o aelwydydd.

### Ardaloedd gweddilliol parc cenedlaethol Eryri

Mae Gwynedd a Chonwy yn rhannol o fewn parc cenedlaethol Eryri. Gwynedd sydd â'r gyfran uchaf o'i haelwydydd yn y parc cenedlaethol, gydag 19% yng nghanol 2018. 4% o Gonwy sydd yn y parc cenedlaethol.

Rhwng 2018 a 2028, amcanestynnir y gwelir cynnydd o 3.6% (rhyw 1,800) yn nifer yr aelwydydd yn ardal weddilliol Conwy a chynnydd o 1.9% (2,000) ym mhoblogaeth yr aelwydydd. Amcanestynnir y gwelir cynnydd o 6.5% yn nifer yr aelwydydd un person, gan barhau'r math mwyaf cyffredin o aelwyd.

Rhwng 2018 a 2028, amcanestynnir y gwelir cynnydd o 5.8% (bron 2,600) yn nifer yr aelwydydd yn ardal weddilliol Gwynedd ac chynnydd o 4.5% (4,400) ym mhoblogaeth yr aelwydydd.  Y rheswm pennaf am y cynnydd yw'r cynydd o 10.8% yn yr aelwydydd un person, sy'n cynrychioli rhyw 1,700 o aelwydydd ychwanegol.


## Cymariaethau

### Cymariaethau ag amcanestyniadau aelwydydd parciau cenedlaethol ar sail 2014

Ers cyhoeddi amcanestyniadau aelwydydd Parciau Cenedlaethol yn seiliedig ar 2014, newidiwyd y fethodoleg ar gyfer cyfrifo'r rhagdybiaethau ymfudo ar gyfer amcanestyniadau'r awdurdodau lleol a rhai’r parciau cenedlaethol. Ar gyfer amcanestyniadau'r parciau cenedlaethol, cyfrifir rhagdybiaethau ymfudo rhyngwladol a rhagdybiaethau ymfudo mewnol ar wahân erbyn hyn (ar gyfer yr amcanestyniadau sy’n seiliedig ar 2014, cyfunwyd rhagdybiaethau ymfudo mewnol a rhyngwladol). Yn unol â'r newidiadau a wnaed i amcanestyniadau'r awdurdodau lleol, cyfrifir rhagdybiaethau ymfudo mewnol bellach ar sail cyfraddau yn hytrach na niferoedd penodol. Mae'r rhagdybiaethau ymfudo rhyngwladol yn parhau i fod yn seiliedig ar nifer penodol dros gyfnod yr amcanestyniad.

Felly, mae'r gwahaniaethau rhwng amcanestyniadau aelwydydd parciau cenedlaethol 2014 a 2018 yn adlewyrchu nid yn unig y newid yn y tueddiadau demograffig yn ystod y cyfnod hwn, ond hefyd y newid yn y fethodoleg rhwng y ddwy set o amcanestyniadau, yn ogystal â'r newid ym mlwyddyn sylfaen yr amcanestyniad.

**Siart 10: Canran y gwahaniaeth rhwng nifer yr aelwydydd a amcanestynnir gan ddefnyddio amcanestyniadau seiliedig ar 2014 a 2018, yn ôl parc cenedlaethol**




Ffynhonnell: Amcanestyniadau aelwydydd parciau cenedlaethol, yn seiliedig ar 2018, Llywodraeth Cymru

Mae’r amcanestyniad o nifer yr aelwydydd a fydd yn y tri pharc cenedlaethol yn 2028 yn uwch yn ôl yr amcanestyniadau sy’n seiliedig ar 2018 na’r rheini sy’n seiliedig ar 2014, yn enwedig yn achos Arfordir Penfro.

Mae'r amcanestyniad o nifer yr aelwydydd a fydd yn Eryri yn 2028 2.7% yn uwch yn ôl yr amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2018 ac amcanestynnir y bydd y ffigur ar gyfer Bannau Brycheiniog 1.3% yn uwch.

Yn ôl yr amcanestyniadau 2018, amcanestynnir y bydd nifer yr aelwydydd yn Arfordir Penfro yn 2028 14.7% (1,400) o aelwydydd yn uwch na rhai 2014. Y rheswm am hynny, bron yn llwyr, yw'r gwahaniaeth ym mhoblogaeth yr aelwydydd y disgwylir iddo fod 14.3% yn uwch na'r amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2014 erbyn 2028.

Mae nifer o resymau posibl dros hyn:

- roedd yr amcangyfrif canol blwyddyn o'r boblogaeth ar gyfer Arfordir Penfro yn 2018 1.6% yn uwch nag amcanestyniad poblogaeth ar sail 2014, felly roedd yr amcanestyniadau poblogaeth yn seiliedig ar 2018 yn dechrau o linell sylfaen uwch ac amcanestynnir bod cydrannau newid (newid naturiol ac ymfudo) yn uwch nag yn yr amcanestyniadau yn seiliedig ar 2014. Adlewyrchir y gwahaniaeth hwn yn yr amcangyfrif canol-blwyddyn yn yr amcanestyniadau poblogaeth sy'n seiliedig ar 2018 ar gyfer Arfordir Penfro, ac felly hefyd yn yr amcanestyniadau aelwydydd hyn
- mae'r fethodoleg a ddefnyddir ar gyfer ymfudo wedi newid rhwng amcanestyniadau poblogaeth ar sail 2014 a'r rheini sy'n seiliedig ar 2018. Cyfrifir rhagdybiaethau ymfudo mewnol bellach ar sail cyfraddau yn hytrach na nifer oedd penodol. I gael rhagor o wybodaeth am y newid hwn, gweler yr adran gwybodaeth allweddol am ansawdd yn yr amcanestyniadau poblogaeth parciau cenedlaethol sy'n seiliedig ar 2018. Gall y gwahaniaeth methodolegol hwn effeithio ar gymaradwyedd y ddwy set o amcanestyniadau.
- mae rhai cyfyngiadau ar yr amcangyfrifon o'r ymfudo mewnol mewn parciau cenedlaethol oherwydd anawsterau wrth amcangyfrif ymfudo ar lefel ardal fach. Mae hyn yn ymddangos yn fwy amlwg yn Arfordir Penfro nac yn y parciau cenedlaethol eraill. I gael rhagor o wybodaeth am hyn, gweler adran gwybodaeth allweddol am ansawdd amcanestyniadau poblogaeth parciau cenedlaethol sy'n seiliedig ar 2018


## Cymariaethau ag amcanestyniadau o aelwydydd awdurdodau lleol yn seiliedig ar 2018

Mae'r tri pharc cenedlaethol yng Nghymru o fewn ffiniau sawl awdurdod lleol gwahanol. Wrth i ni gyfrifo amcanestyniadau ar gyfer yr ardaloedd y tu mewn a'r tu allan i ardaloedd y parciau cenedlaethol, mae'n bosibl cymharu'r amcanestyniadau hyn ag amcanestyniadau aelwydydd awdurdodau lleol 2018.

Gan nad ydym yn cyfyngu amcanestyniadau'r parciau cenedlaethol i gyfateb i amcanestyniadau'r awdurdodau lleol, ni fyddant yn cyfateb yn union. Effeithir o bosibl ar y gwahaniaethau rhwng y ddwy set o amcanestyniadau gan y ffaith mai niferoedd cymharol fach a ddefnyddir wrth gyfrifo amcanestyniadau'r parciau cenedlaethol. Mae rhai gwahaniaethau rhwng diffinaidau hefyd yn y data ymfudo a ddefnyddir yn amcanestyniadau'r parciau cenedlaethol o'u cymharu ag amcanestyniadau awdurdodau lleol. Ceir cyfyngiadau ar yr hyn y gellir ei gymharu rhwng y ddwy

set o amcanestyniadau, ond mae modd eu cymharu yn fras. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr adran gwybodaeth allweddol am ansawdd.

**Siart 11: Canran y gwahaniaeth yn nifer yr aelwydydd rhwng amcanestyniadau'r parciau cenedlaethol ac amcanestyniadau awdurdodau lleol, 2018 i 2043**




Ffynhonnell: Amcanestyniadau aelwydydd parciau cenedlaethol, yn seiliedig ar 2018, Llywodraeth Cymru ac amcanestyniadau aelwydydd awdurdodau lleol, yn seiliedig ar 2018, Llywodraeth Cymru

Mae'r siart hon yn dangos y gwahaniaeth canrannol rhwng amcanestyniadau'r parciau cenedlaethol ac amcanestyniadau ardaloedd gweddilliol, ac amcanestyniadau'r awdurdodau lleol. Er enghraifft, ar gyfer Eryri, mae cyfanswm yr amcanestyniadau ar gyfer parc cenedlaethol Eryri, ardal weddilliol Gwynedd ac ardal weddilliol Conwy yn cael ei gymharu â chyfanswm amcanestyniadau'r awdurdodau lleol ar gyfer Gwynedd a Chonwy.

Mae amcanestyniadau'r parciau cenedlaethol yn gyson yn fras ag amcanestyniadau awdurdodau lleol dros gyfnod o 25 mlynedd, gan amrywio lai na 0.5% ar gyfer pob parc cenedlaethol am gyfnod yr amcanestyniad yn ei gyfanrwydd.

## Gwybodaeth allweddol am ansawdd

### Perthnasedd

Mae’n hamcanestyniadau o aelwydydd yn bwysig ar gyfer datblygu polisïau, cynllunio, a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae galw mawr am amcanestyniadau aelwydydd ar gyfer amrywiaeth o sefyllfaoedd, gan gynnwys:

- cynllunio gwasanaethau ac amcangyfrif anghenion y dyfodol ar lefel genedlaethol a lleol, (er enghraifft, tai, iechyd, a gwasanaethau cymdeithasol) gan gynnwys paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol ac yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol
- datblygu polisïau
- cyngor i Weinidogion
- cyfrannu at ddadleuon yn y Senedd a thu hwnt
- cyfrifo ystadegau pellach (er enghraifft, amcangyfrifon o’r angen a’r galw am dai)
- cymariaethau, a meincnodi a phroffilio daearyddol
- cynnal asesiadau llesiant sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae amrywiaeth o ddefnyddwyr yn defnyddio data aelwydydd, o lywodraeth genedlaethol a lleol, elusennau a mudiadau yn y sector gwirfoddol, adrannau eraill y llywodraeth, myfyrwyr, ymchwilwyr, prifysgolion, dinasyddion unigol, a chwmnïau preifat. Mae angen i'r rhai sy'n cynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol ac sy’n helpu i lunio polisïau cynaliadwy ystyried y boblogaeth a nifer yr aelwydydd. Gall amcanestyniadau aelwydydd dynnu sylw at dueddiadau sy'n llunio'r cyd-destun ar gyfer datblygu polisi yn y dyfodol.

Daeth Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 i rym ym mis Gorffennaf 2015. Un o elfennau allweddol y Ddeddf yw galluogi awdurdodau cynllunio lleol i ddod at ei gilydd a pharatoi Cynllun Datblygu Strategol sy'n rhychwantu ffiniau awdurdodau lleol, gan gwmpasu ardal ehangach ac ymdrin â mwy na materion lleol yn unig. Bydd y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), pan ddaw i rym ar 21 Ionawr 2021, yn disodli'r strwythur llywodraethu ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu strategol.

Bydd tystiolaeth i ategu’r gwaith o baratoi cynlluniau yn cynnwys ystadegau demograffig ac amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd y bydd angen eu hystyried mewn cyd-destun strategol. Bydd fersiynau newydd o amcanestyniadau yn y dyfodol yn cyfrannu at lunio cynlluniau strategol.

Mae’n rhaid i bob awdurdod cynllunio lleol sydd wedi mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) sy'n mesur perfformiad polisïau a pha gamau a allai fod eu hangen i’w cywiro. Mae’r adroddiadau hyn yn hollbwysig o ran sicrhau bod y CDLl yn parhau’n gyfredol. Gall y cynnydd a ddisgrifir yn yr adroddiadau effeithio ar lefelau a dosbarthiad poblogaeth, proffiliau demograffig, a phrisiau tai yn y dyfodol. Bydd y canlyniadau hyn a'u perthynas ag amcanion allweddol y cynllun yn ffurfio rhan o'r AMB.

## Aelwyd

Diffinnir aelwyd fel un person sy'n byw ar ei ben ei hun, neu grŵp o bobl (nad ydynt o reidrwydd yn gysylltiedig) sy'n byw yn yr un cyfeiriad - hynny yw, rhannu naill ai ystafell fyw, lolfa neu o leiaf un pryd y dydd.

## Sefydliad cymunedol

Diffinnir sefydliad cymunedol fel sefydliad sy'n darparu llety preswyl wedi'i reoli. Nid yw'r sefydliadau hyn wedi'u cynnwys yn yr amcanestyniadau aelwydydd (gweler y fethodoleg isod). Yn y cyd-destun hwn, mae rheoli yn golygu goruchwyliaeth amser llawn neu ran-amser o'r llety. Yn y rhan fwyaf o achosion (er enghraifft, carchardai, ysbytai mawr, gwestai) mae'n hawdd adnabod sefydliadau cymunedol. Fodd bynnag, gall anawsterau godi gyda gwestai bach, gwestai bach a llety cysgodol.

Mae rheolau arbennig yn berthnasol yn yr achosion hyn:

- Mae gwestai bach a gwestai bach yn cael eu trin fel sefydliadau cymunedol os oes ganddyn nhw'r gallu i gael 10 neu fwy o westeion, ac eithrio'r perchennog/rheolwr a'u teulu
- Mae tai cysgodol yn cael eu trin fel sefydliad cymunedol os oes gan lai na hanner y preswylwyr eu cyfleusterau coginio eu hunain. Os oes gan hanner neu fwy eu cyfleusterau eu hunain ar gyfer coginio (waeth beth fo'u defnydd) mae'r sefydliad cyfan yn cael ei drin fel cartrefi ar wahân.

## Cywirdeb

Mae amcanestyniadau o aelwydydd yn seiliedig ar dueddiadau ac yn rhoi amcangyfrif o nifer yr aelwydydd. Maent yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth, a rhagdybiaethau am aelwydydd o Gyfrifiadau 2001 a 2011. Mae'r amcanestyniadau poblogaeth yn seiliedig ar dueddiadau ac yn rhoi amcangyfrif o faint poblogaeth y dyfodol ac yn seiliedig ar rhagdybiaethau ynghylch genedigaethau, marwolaethau a mudo. Mae'r rhagdybiaethau hyn yn seiliedig i raddau helaeth ar dueddiadau'r gorffennol. Nid yw amcanestyniadau a wnaed fel hyn yn ystyried effeithiau polisïau llywodraeth ganol a lleol ar lefelau a dosbarthiad y boblogaeth yn y dyfodol, na newidiadau iddi.

Mae gan amcanestyniadau o aelwydydd eu cyfyngiadau. Nid yw'r amcanestyniadau o aelwydydd y parciau cenedlaethol yn rhagolygon sy'n seiliedig ar bolisi. Maent yn dangos yr hyn a ddisgwylir os bydd y tueddiadau y maent wedi'u seilio arnynt yn parhau. Gan fod y broses o newid demograffig yn un gronnol, mae amcanestyniadau yn dod yn gynyddol ansicr po bellaf y maent yn cael eu dwyn ymlaen. Mae newid demograffig yn effeithio ar rai poblogaethau'n gyflymach ac i fwy o raddau nag eraill.

Mae yna ffactorau all dylanwadu ar yr amcanestyniadau a thair prif gydran newid yn y boblogaeth, er enghraifft newidiadau yn yr economi, newidiadau yn ymddygiad yr unigolyn, y teulu a'r aelwyd, a digwyddiadau y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

## Methodoleg

Mae'r amcanestyniadau poblogaeth yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn (ar 30 Mehefin bob blwyddyn). Caiff amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn ar gyfer Cymru a Lloegr eu cynhyrchu gan yr ONS. Er mwyn cynhyrchu amcanestyniadau'r parciau cenedlaethol mae'r amcanestyniadau poblogaeth yn cael eu cyfuno â chyfraddau ffurfio aelwydydd. Mae'r tybiaethau hyn yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol.

Mae amcanestyniadau'r parciau cenedlaethol hyn yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol-2018 ar gyfer parciau cenedlaethol yng Nghymru.

Cynhyrchir y data sylfaen ynghylch ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo a ddefnyddir i gyfrifo tueddiadau'r dyfodol gan yr ONS ar gyfer cyfnod yr amcanestyniad yn gyfan, sef 25 mlynedd fel arfer. Cyfrifir rhagdybiaethau am dueddiadau yn y cyfraddau ffurfio aelwydydd ar sail ffigurau Cyfrifiadau 2001 a 2011 a gynhyrchwyd gan yr ONS. Defnyddir data Cyfrifiadau gan mai dyma'r ffynhonnell wybodaeth fwyaf cynhwysfawr am ffurfio aelwydydd. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gallai newidiadau o ran ffurfio aelwydydd ers Cyfrifiad 2011 fod yn wahanol i'r newidiadau rhwng Cyfrifiad 2001 a Chyfrifiad 2011, yn enwedig tuag at ddiwedd cylch deng mlynedd y cyfrifiad.

Mae amcanestyniadau poblogaeth parciau cenedlaethol yn cael eu cynhyrchu gan ddefnyddio dull demograffig sefydledig, sef y dull cydran carfan. Hynny yw:

- cymryd amcangyfrif poblogaeth y flwyddyn fwyaf diweddar
- tynnu grwpiau poblogaeth arbennig o'r amcangyfrif
- heneiddio pob unigolyn un flwyddyn
- ychwanegu genedigaethau a thynnu marwolaethau
- caniatáu ar gyfer mewnfudo ac allfudo
- ychwanegu yn ôl yn y grwpiau poblogaeth arbennig

Yn gyffredinol, mae'r rhagdybiaethau'n seiliedig ar dueddiadau'r pum mlynedd diwethaf, ac mae'r amcanestyniadau yn dangos beth allai ddigwydd pe bai'r tueddiadau hyn yn parhau.

Yna cyfrifir amcanestyniadau aelwydydd gan

- dynnu'r boblogaeth dybiedig sy'n byw mewn sefydliadau cymunedol o'r boblogaeth a amcanestynnir yn ôl grŵp oedran a rhyw i greu'r amcangyfrif o nifer y bobl sy'n byw mewn aelwydydd preifat
- defnyddio data hanesyddol i gyfrifo'r cyfraddau aelodaeth aelwydydd a amcanestynnir ar gyfer 2018 i 2043
- lluosi amcangyfrif o'r nifer o bobl sy'n byw mewn aelwydydd preifat â'r cyfraddau aelodaeth aelwydydd a amcanestynnir
- rhannu'r canlyniadau yn ôl maint yr aelwyd, yna eu crynhoi yn ôl grŵp oedran, rhyw a math o aelwyd i roi'r cyfanswm amcanol o aelwydydd.

Cynhaliwyd y broses hon gan ddefnyddio'r amcanestyniadau poblogaeth sydd ar gael ar gyfer 2018 i 2043 ar gyfer pob parc cenedlaethol ac ardal weddilliol yng Nghymru.

Wrth gynhyrchu amcanestyniadau'r parciau cenedlaethol rydym hefyd yn cyfrifo amcanestyniadau ar gyfer y rhannau o'r awdurdod lleol sydd y tu allan i'r parciau cenedlaethol, sef yr 'ardaloedd gweddilliol'. Y rhain yw:

### Bannau Brycheiniog

- Sir Gaerfyrddin
- Merthyr Tudful
- Sir Fynwy
- Powys
- Rhondda Cynon Taf

### Eryri

- Conwy
- Gwynedd

### Arfordir Sir Benfro

- Sir Benfro

Mae rhannau bach iawn o'r parciau cenedlaethol mewn awdurdodau lleol eraill hefyd ond mae'r ardaloedd hyn mor fach fel nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr amcanestyniadau hyn. Mae'r amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer yr ardaloedd gweddilliol yn seiliedig ar amcangyfrifon ardaloedd bach, ac ar ragdybiaethau ynghylch sut y caiff y boblogaeth ei rhannu rhwng ardaloedd nad ydynt o fewn parciau cenedlaethol. Felly, er eu bod yn arwydd defnyddiol o faint y boblogaeth a'r newid yn y boblogaeth, ni ddylid eu trin fel ffigurau manwl gywir.

Gan fod y poblogaethau o fewn y parciau cenedlaethol sydd wedi'u rhannu i bob awdurdod lleol yn fach, nid yw'n ymarferol amcanestyn y tueddiadau hyn i'r poblogaethau unigol hyn, felly rydym yn modelu'r boblogaeth a'r aelwydydd o fewn y parc cenedlaethol cyfan. Fodd bynnag, gallwn ddarparu amcangyfrif o raniad y boblogaeth ar gyfer blwyddyn sylfaen yr amcanestyniadau ar draws yr holl awdurdodau lleol. Gan fod tueddiadau'r boblogaeth yn debyg ar y cyfan ar draws y parc cenedlaethol cyfan, byddem yn disgwyl i'r rhaniad hwn barhau'n weddol gyson dros gyfnod yr amcanestyniad.

Mae'r datganiad ar amcanestyniadau poblogaeth y parciau cenedlaethol, yn seiliedig ar 2018, yn cynnwys manylion hefyd am newidiadau a wnaed i gydran fudo'r amcanestyniadau poblogaeth. Maent yn seiliedig ar yr amcanestyniadau aelwydydd hyn (gweler gwybodaeth allweddol am ansawdd).

Datblygwyd y fethodoleg ar gyfer yr amcanestyniadau hyn mewn cydweithrediad agos ag awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol a defnyddwyr allweddol yng Nghymru drwy weithgor Amcanestyniadau Is-genedlaethol Cymru (WaSP). Mae'r grŵp wedi cyfarfod yn rheolaidd i baratoi'r amcanestyniadau ac wedi bod yn fforwm ar gyfer trafodaeth dechnegol ar y fethodoleg a'r data

sylfaen a ddefnyddir. Mae aelodau'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol ac eraill sydd â gwybodaeth a phrofiad o ddata demograffig ac amcanestyniadau poblogaeth.

Mae diweddariadau rheolaidd wedi cael eu darparu hefyd mewn cyfarfodydd llawn o Bwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru (PCYC).

Bydd canllawiau ar y fethodoleg fanwl a ddefnyddiwyd i greu amcanestyniadau aelwydydd is-genedlaethol Cymru yn cael eu cyhoeddi mewn adroddiad technegol maes o law. Bydd yn disgrifio sut mae amcanestyniadau aelwydydd awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol yn cael eu cynhyrchu, ac yn disgrifio'n fanwl y fethodoleg a ddefnyddir i ddatblygu'r rhagdybiaethau ar ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo.

### Amseroldeb a phrydlondeb

Mae amcanestyniadau aelwydydd y parciau cenedlaethol fel arfer yn cael eu cyfrif a'u cyhoeddi bob tair blynedd, i ddiwallu anghenion defnyddwyr yng Nghymru.

Amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2014 yw'r set ddiwethaf o amcanestyniadau aelwydydd parciau cenedlaethol. Cawsant eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2017.

Cyhoeddodd Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru mewn blog ym mis Hydref 2019 y byddai amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd is-genedlaethol 2017 yn cael eu gohirio. Cyhoeddwyd erthygl ystadegol hefyd, yn amlinellu'r heriau a wynebwyd wrth gyfrifo amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol ar sail 2017 mewn rhagor o fanylder, a datgan y bwriad i diweddaru'r amcanestyniadau parciau cenedlaethol ar sail 2018.

### Amser cyhoeddi arfaethedig yr amcanestyniadau nesaf

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol fel arfer yn cyhoeddi amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol bob dwy flynedd. Rhwng 15 Hydref a 12 Tachwedd, cynhaliodd yr ONS ymarfer ymgysylltu â defnyddwyr i roi cyfle i ddefnyddwyr roi adborth ar sut y gallent fynd ati i gyhoeddi ac amseru'r set nesaf o amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol a phoblogaeth is-genedlaethol. Cyhoeddwyd erthygl ar 19 Ebrill yn crynhoi'r ymatebion a'r canlyniadau, yn ogystal â thrafod yr argymhellion terfynol.

Gwnaed argymhelliad terfynol ar gynhyrchu amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol ar sail 2020 gan y Pwyllgor Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol, yn cynnwys y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), Cofnodion Cenedlaethol yr Alban (NRS), Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon a Llywodraeth Cymru. Cyflwynwyd yr argymhelliad hwn i Bwyllgor Cyfrifiad y DU (UKCC) ar gyfer penderfyniad terfynol. Mae'r UKCC, a gadeirir gan yr Ystadegydd Cenedlaethol, yn cydlynu materion ystadegol ledled y Deyrnas Unedig ac yn adolygu dulliau amgen o ddiwallu anghenion defnyddwyr yn y dyfodol am ystadegau demograffig-gymdeithasol poblogaeth ac ardal fach.

Penderfynodd UKCC, er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr a nodwyd drwy'r ymgysylltu hwn â defnyddwyr, mai dim ond ar gyfer pob gwlad gyfansoddol y Deyrnas Unedig ac ar gyfer y Deyrnas

Unedig gyfan y caiff amcanestyniad poblogaeth cenedlaethol ei gyhoeddi, heb unrhyw amcanestyniadau ar sail amrywiolion. Mae hyn mewn ymateb i bandemig y coronafeirws (COVID-19) ac i gefnogi Adolygiad Oedran Pensiwn y Wladwriaeth sydd ar ddod. Mae'r ONS yn bwriadu cyhoeddi'r rhain ym mis Rhagfyr 2021 o dan y teitl 'Amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol dros dro yn seiliedig ar 2020' gan ddefnyddio set wedi'i diweddaru o ragdybiaethau demograffig.

Mae Llywodraeth Cymru fel arfer yn cyhoeddi amcanestyniadau is-genedlaethol unwaith bob tair blynedd, felly, byddai'r set nesaf o amcanestyniadau ar gyfer Cymru yn seiliedig ar 2021. Felly, rydym yn cynnig y bydd y set nesaf o amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol ar gyfer Cymru yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2021.

Byddem yn croesawu unrhyw adborth ar y dull arfaethedig hwn drwy ein blwch post

ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru.

### Hygyrchedd ac eglurder

Caiff manylion y datganiad ystadegol hwn eu cyhoeddi ymlaen llaw ac yna eu gosod ar dudalennau Ystadegau ac Ymchwil gwefan Llywodraeth Cymru. Mae tablau manylach ar gael ar StatsCymru, gwasanaeth rhad ac am ddim sy'n caniatáu i ymwelwyr weld, trin, creu a lawrlwytho data.

### Cymaroldeb a chydlyniaeth

Mae Cofnodion Cenedlaethol yr Alban yn cyhoeddi amcanestyniadau aelwydydd is-genedlaethol, sy'n cynnwys amcanestyniadau o aelwydydd y parciau cenedlaethol. Cafodd amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol yn seiliedig ar 2018 eu cyhoeddi ddydd Mawrth 29 Medi 2020.

Nid yw'r ONS nac Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon yn cyhoeddi amcanestyniadau o aelwydydd ar lefel parc cenedlaethol ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Mae canllawiau ar gael i ddefnyddwyr er mwyn cymharu ffynonellau data a dulliau ar gyfer amcanestyniadau aelwydydd is-genedlaethol ledled y DU.

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007. Mae hyn yn golygu eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu fod yr ystadegau swyddogol yn cwrdd â'r safonau uchaf o ran dibynadwyaeth, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Ceir eu dyfarnu fel statws Ystadegau Gwladol yn dilyn asesiad gan gangen reoli Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig. Mae'r Awdurdod yn ystyried a ydy'r ystadegau yn cwrdd â'r safonau uchaf o gydymffurfiad â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a thrafodaethau cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw sicrhau'r lefel o gydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os down i bryderu nad yw'r ystadegau yma yn cwrdd â'r safonau priodol, byddwn yn trafod hyn yn brydlon gyda'r Awdurdod. Gall statws Ystadegau Gwladol gael ei diddymu unrhyw bryd o beidio â chynnal y safonau uchaf, a'i ailddyfarnu unwaith eto pan gaiff y safonau eu hadfer.

Cynhaliwyd yr asesiad llawn diweddaraf o'r ystadegau hyn yn unol â'r Cod Ymarfer yn 2011.

Ers yr adolygiad diweddaraf gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau, rydym wedi parhau i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau, ac wedi gwneud y gwelliannau canlynol:

- gweithio gyda gweithgor Amcanestyniadau Is-genedlaethol Cymru (WaSP) i wneud a chytuno ar welliannau i'r fethodoleg ar gyfer cyfrifo'r amcanestyniadau
- gwella sut y caiff yr ystadegau hyn eu cyflwyno
- gwella dibynadwyedd trwy leihau mynediad cyn eu cyhoeddi

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFG)

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. Cafodd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol eu gosod ym Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn adroddiad Llesiant Cymru.

Cewch ragor o wybodaeth yma am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Manylion pellach

Mae'r ddogfen hon ar gael yn: https://llyw.cymru/amcanestyniadau-genedlaethol-o-aelwydydd

## Diweddariad nesaf

I'w gadarnhau

## Hoffem gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Anfonwch e-bost at ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru.

## Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.

OGL